Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth, 26 Medi 2023, am 10am (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neil Prior | Aelod Cabinet dros Wella Corfforaethol a Chymunedau Cyngor Sir Penfro (CSP) (Cadeirydd) |
| Mydrian Harries | Prif Swyddog Cynorthwyol – Cyfarwyddwr Adnoddau, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Iwan Thomas | Prif Swyddog Gweithredol, PLANED |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) |
| Y Cynghorydd John Davies | Is-gadeirydd, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWW) |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) (cyrraedd 10.08am) |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) (cyrraedd 10.08am) |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru (cyrraedd 10.21am) |
| Linda Jones | Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |
| Ardiana Gjini | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd |
| David Evans | Is-bennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Christine Harley | Y Gwasanaeth Prawf |
| Darren Thomas | Pennaeth Seilwaith, CSP |
| Huwel Manley | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| *Yn bresennol ar gyfer eitem 3* | |
| Jessie Buchanan | Cydgysylltydd prosiect Gyda'n gilydd dros Newid |
| David Astins | Cyngor Sir Penfro |
| Rhian Bennett | Cyngor Sir Penfro |
| Sarah Oliver | Cyngor Sir Penfro |
| Robyn Collip | Un o raddedigion Rhaglen Datblygu Graddedigion Genedlaethol, CSP |
| Yovieta Andrew | Un o raddedigion Rhaglen Datblygu Graddedigion Genedlaethol, CSP |
| Huw Rowlands | Un o raddedigion Rhaglen Datblygu Graddedigion Genedlaethol, CSP |
| *Yn bresennol ar gyfer eitem 4* | |
| Gemma Baker | CSP |
| *Cymorth/Ysgrifenyddiaeth* | |
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Rachael Rimmer | Swyddog Cymorth Polisi Corfforaethol, CSP |

| | |
|---|---|
| Amy Richmond-Jones | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**<u>Ymddiheuriadau</u>**

| | |
|---|---|
| Will Bramble | Prif Weithredwr, CSP |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Cynorthwyol, CSP |
| Phil Kloer | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Hywel Dda (Is-gadeirydd) |
| Darren Mutter | Pennaeth Gwasanaethau Plant, CSP |
| Caroline Drayton | Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |

Dechreuodd y cyfarfod am 10:03am

**1. Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd NP bawb i'r cyfarfod. Nododd y byddai mwy yn bresennol o CSP yn y cyfarfod hwn, a oedd wedi'u gwahodd i'r cyfarfod i drafod cynnydd ar y prosiect Cryfhau Cymunedau. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

**2. Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf / Cofnod Camau Gweithredu**

Cofnodwyd bod cofnodion y cyfarfod diweddaf a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2023 yn gywir ac eithrio camgymeriad teipio yn adran 3, lle dylai 'gaeaf 2023-23' ddarllen 'gaeaf 2023-24'.

Roedd yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau

**3. Sesiwn 'Sbotolau' ar y Cynllun Llesiant – Cryfhau Cymunedau**

Cyflwynodd NP ddogfennau allweddol yn ymwneud â diweddariad prosiect cryfhau cymunedau a oedd wedi eu cynnwys i fynychwyr eu gweld yn y pecyn agenda. Ychwanegodd fod CSP wedi'i wahodd i roi cyflwyniad ar y pwnc hwn mewn gweminar gan Gymdeithas Llywodraeth Leol ym mis Hydref. Fel rhan o'r dogfennau allweddol hyn, tynnodd NP sylw at fap meddwl/diagram a oedd wedi'i greu mewn cyfarfod o is-grŵp cymunedau blaenorol, a gynorthwyodd i ddangos yn weledol y gwaith sy'n digwydd ar draws y sefydliadau yn y cymunedau.

Gofynnodd NP i gydweithwyr o CSP sydd wedi bod yn gweithio i gefnogi cryfhau cymunedau, i gyflwyno eu hunain, gan fod eu cymorth wedi caniatáu gwneud cynnydd mawr ar y prosiect. Cyflwynodd DA, RB, SO ac HR eu hunain a'u rôl i'r grŵp. Cyflwynodd NP JB i'r grŵp hefyd, fel mynychwr ychwanegol ar gyfer y cyfarfod hwn. Amlinellodd JB ei rôl yn cydgysylltu'r rhaglen Gyda'n Gilydd dros Newid a siaradodd yn fyr am bwysigrwydd creu gweledigaeth ar gyfer uno cymunedau trwy weithredu ar y cyd a rôl tystiolaeth wrth rymuso cymunedau i ddod yn fwy dyfeisgar.

Rhannodd NP fod y felin drafod New Local wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdod lleol ar yr egwyddor o bŵer cymunedol. Dywedodd hefyd fod cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynghylch ei pholisi cymunedau newydd a'i bod wedi mynegi diddordeb yn ffrwd waith cryfhau cymunedau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Ychwanegodd NP hefyd fod gwaith CSP ar gryfhau cymunedau wedi'i gyflwyno i Fwrdd Gwella a Thrawsnewid y Cyngor.

Darparodd NP ddyddiadau sesiynau yn y dyfodol sy'n ymwneud â gwaith cryfhau cymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys sesiwn gyda'r Cyngor ac uwch aelodau ar 30 Hydref, a chynhadledd gymunedau wedi'i threfnu ar gyfer 19 Hydref.

Amlinellodd fod yr is-grŵp cymunedau wedi nodi blaenoriaethau allweddol i'w hystyried:

- Archwilio sut i ddatblygu a gwreiddio gwerthuso yn ystod cyfnod o heriau o ran cyllid y sector cyhoeddus. Pwysleisiodd NP yr angen am rywbeth ag effaith hirdymor, a fyddai hefyd yn cynnwys y BGC.
- I nodi ym mha le gallai sefydliadau ychwanegu'r gwerth mwyaf ar y cyd, gan gynnwys cydnabod yr hyn sydd ar goll a pha sefydliadau a allai gyfrannu nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar hyn o bryd.

Siaradodd NP yn ehangach am wyth cwestiwn a luniwyd gan yr is-grŵp cryfhau cymunedau ac a amlinellwyd yn y papurau ategol, a fyddai'n ddefnyddiol i'r BGC eu harchwilio. O'r cwestiynau hyn, roedd rhai yn arbennig o berthnasol i'r BGC eu hystyried yn y cyfarfod:

- Y syniad o 1,000 o gysylltwyr cymunedol - mynegodd NP, y byddai'n ddiddorol archwilio sut y gellid hyrwyddo'r syniad o 1000 o gysylltwyr cymunedol (pobl gyffredin sy'n gwneud pethau da yn eu cymunedau) ledled Sir Benfro. Awgrymodd hefyd archwilio'r syniad o her gymunedol a rennir. Awgrymodd SL y byddai hyrwyddwyr cymunedol yn ddisgrifiad gwell ar gyfer Sir Benfro oherwydd y dryswch posibl gyda chysylltwyr cymunedol sy'n gweithio yn y maes hwn ar hyn o bryd.
- Rôl y Grŵp Adfer Cydgysylltu Cymunedau (CCRG) yn y dyfodol, a chyflwynodd gynnig y dylai hyn ddod yn rhan o strwythur adrodd ffurfiol y BGC ar lefel Efydd.

Gwahoddodd NP, i RB i siarad am y CCRG ac amlinellodd gefndir a sefyllfa bresennol y grŵp, gan bwysleisio ei fod yn grŵp amlasiantaeth a oedd yn cyfarfod yn aml yn wreiddiol i fodloni gofynion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). O ganlyniad roedd wedi addasu yn ystod pandemig COVID-19 i ganolbwyntio yn gyntaf ar gydgysylltu ymateb cymunedol a sefydlu'r hwb cymunedol, ac yn ddiweddarach fel ffordd o gefnogi cymunedau fel rhan o adferiad o'r pandemig. Mae'r grŵp hefyd wedi chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â heriau diweddar sy'n dod i'r amlwg, megis rhaglen adsefydlu ffoaduriaid Wcrain, yr argyfwng costau byw, Cadw'n Gynnes Cadw'n Iach ac Ymgyrch Nightingale. Dywedodd RB fod y grŵp bellach mewn cyfnod o fyfyrio ar ble mae eu rôl yn y dyfodol ac roedd yn meddwl bod y grŵp mewn sefyllfa dda, o ystyried eu profiad a'u gwybodaeth, i ehangu eu gorwelion a chwarae rôl barhaus wrth gefnogi cymunedau yn y dyfodol.

Amlinellodd NP y cynnig i'r CCRG ddod yn grŵp cyflawni efydd y BGC mewn perthynas â'r gwaith hwn, a gofynnodd am adborth gan fynychwyr. Mynegodd JB ei chefnogaeth i'r cynnig hwn, gan ddweud y byddai'n gweddu'n dda. Mynegodd IT hefyd ei gefnogaeth i'r cynigion, gan drafod sut mae gan y CCRG y gallu i fod yn fforwm lle y gall holl ymdrechion cymunedol ddod ynghyd mewn ffordd gydlynol a chynaliadwy. Cefnogodd AG y cynnig hefyd, gan bwysleisio pwysigrwydd ymyriadau cynaliadwy a newid i ganolbwyntio ar y genhedlaeth iau. Cefnogodd HM y cynnig hefyd, gan drafod mentrau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn siroedd eraill. Awgrymodd SL fod y cynnig yn amserol o ystyried bod y CCRG eisiau ail-lunio, a bod sefydlu grŵp arall yn ddiangen ac yn anymarferol. Mynegodd ei chefnogaeth i'r cynnig, ond awgrymodd fod angen cynnwys cynghorau tref a chymuned yn fwy gweithredol yn y gwaith hwn. Tynnodd DT sylw at bwysigrwydd o fod yn benodol ynghylch ffocws a phwrpas y grŵp, yn ogystal â'r angen i allu gwerthuso'r hyn a gyflawnwyd.

Cytunodd y grŵp i symud y cynnig yn ei flaen. Nododd NP fod rhai chwaraewyr allweddol ar goll, ac y dylid cynnwys unrhyw sefydliad sy'n berthnasol i'r amcanion a rennir. Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Bod pob partner yn meddwl sut y gallant gyfrannu at y gwaith, ac yn nodi pa adnoddau y mae pob un yn fodlon eu hymrwymo
- Bod y CCRG yn ystyried sut y bydd yn 'ail-frandio', a bod RB yn cydgysylltu drafftio cylch gorchwyl newydd
- Bod yr is-grŵp cydgysylltu arian, yn cyfarfod i ymhelaethu ymhellach ar y syniadau hyn.

Gwahoddodd NP JB i drafod y gynhadledd gymunedol sydd i ddod. Tynnodd JB sylw at y ffaith y bydd y rhaglen yn hyrwyddo trafodaeth ynghylch datrysiadau ar y cyd, arfer traws-genhedlaeth a deall tebyg i beth fyddai enghreifftiau da, a dysgu gwersi o'r enghreifftiau hynny.  Amlygodd fod y gynhadledd gymunedol yn agored i bawb a gwahoddodd fynychwyr i gysylltu â hi os ydynt yn dymuno mynychu.

Trafododd SO drefnu cyfarfod ag Adam o felin drafod New Local yn ystod ei ymweliad. Gofynnodd i bartneriaid gysylltu â hi os oes ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan o hynny.

Ar y pwynt hwn, ymdriniwyd ag eitem 5 ar yr agenda hefyd. Rhoddodd NP ddiweddariad am sawl sgwrs â thîm polisi Llywodraeth Cymru fel rhan o waith datblygu ar bolisi cymunedau newydd, ac y byddai tîm Llywodraeth Cymru yn dod i'r gynhadledd cymunedau ar 19 Hydref.

## 4. Diweddariadau prosiect y Cynllun Llesiant

Tlodi:

- Dywedodd GB fod y strategaeth Trechu Tlodi wedi'i chwblhau a'i chyfieithu a'i bod yn barod i'w lansio yn yr Uwchgynhadledd Trechu Tlodi. Mae'r uwchgynhadledd yn debygol o gael ei chynnal ar 14 Chwefror 2024.  Mae siaradwyr gwadd yn cael eu trefnu ar hyn o bryd ac mae Coleg Sir Benfro wedi cytuno'n garedig i gynnal y digwyddiad.
- Llai o gynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd oherwydd lefel uchel o absenoldeb staff.
- Mae monitro'r strategaeth yn flaenoriaeth allweddol, a bydd cynllun gweithredu yn allweddol i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.
- Mae paratoi ar gyfer cyfnod y gaeaf yn flaenoriaeth arall. Mae'n annhebygol y ceir cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru fel Cynllun Cymorth Costau Byw y llynedd, sy'n golygu dull gweithredu ar raddfa lai na'r gaeaf diwethaf.
- Cynigiodd SL help a chefnogaeth ychwanegol gan bartneriaid oherwydd absenoldebau staff. Adleisiodd JB y cynnig hwn o gymorth hefyd.

Yr Amgylchedd:

- Dywedodd HM ei fod yn bresennol yn lle CD am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Gan nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith BGC Sir Benfro nid oedd mewn sefyllfa i roi diweddariadau ar gamau gweithredu penodol yr is-grŵp, a chyfeiriodd y grŵp at y pecyn agenda ar gyfer yr adroddiad diweddaru ysgrifenedig. Dywedodd, mewn perthynas â gwaith addasu yr hinsawdd ehangach ar draws y rhanbarth bod pethau'n datblygu, gan dynnu sylw at gynigion oedd yn cael eu cyflwyno ynglŷn â chlwstwr diwydiannol De Cymru a diwydiant trwm yn Aberdaugleddau y byddai angen eu lliniaru.

- Disgrifiodd DT sut yr oedd bws hydrogen o Hwlffordd i Gaerfyrddin newydd ddechrau ei brosiect treialu am bythefnos, ac er mai cam bach oedd hwn, roedd yn obeithiol y byddai’r treial yn cael rhywfaint o effaith.
- Tynnodd DT sylw hefyd at y ffaith fod y BGC hwn wedi’i weld fel arweinydd cenedlaethol o ran addasu ar gyfer yr hinsawdd, a’u bod wedi’u gwahodd i roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf CLILC.

Cadarnhaodd NP yr amserlen ar gyfer sesiynau sbotolau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf fel:

- 28 Tachwedd 2023 – *Mynd i’r Afael â Newid Hinsawdd a’r Argyfwng Natur*
- 20 Chwefror 2024 - *Tlodi*

## 5. Diweddariad Polisi Cymunedau

Ymdriniwyd yn eitem 3 uchod.

## 6. Ymgynghoriad Gwasanaethau Pediatrig Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Nid oedd Conrad Hancock a oedd fod i ymdrin â chwestiwn gan y BGC ar y mater hwn yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd NP fod y cyflwyniad wedi'i ddosbarthu i'r holl bartneriaid ac os oedd ganddynt unrhyw ymholiadau yna gellid e-bostio'r rhain at CH.

## 7. Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35am

**Cofnod camau gweithredu**

| Rhif | Tud. | Cam gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3 | Nodi pa adnoddau y byddai aelodau'n fodlon ymrwymo i wneud grŵp cyflawni efydd CCRG | | | |
| 2 | 3 | Llunio cylch gorchwyl er mwyn i CCRG ddod yn grŵp cyflawni efydd | Cyn gynted â phosibl | RB | |
| 3 | 3 | Sefydlu cyfarfod is-grŵp arall i ehangu ymhellach ar y syniadau sy'n ymwneud â'r CCRG | Cyn gynted â phosibl | | |